# Diwygio Rheolau Sefydlog 26.86-26.94: Biliau Aelod

## Diben

01. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

02. Mae'r adroddiad yn argymell newidiadau i Reol Sefydlog 26, sy'n ymwneud â phroses Biliau Aelod. Mae'r newidiadau y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynigion ar gyfer y Rheolau Sefydlog newydd i'w gweld yn Atodiad B.

## Y cefndir

03. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cynhaliwyd naw balot ar gyfer Biliau Aelod. O'r rhain:

- ni chafwyd caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Bil yn achos dau o'r cynigion;
- tynnwyd un cynnig yn ôl;
- cafwyd caniatâd i gyflwyno Bil yn achos un cynnig, ond dewisodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol beidio â gwneud hynny;
- cafodd tri o'r cynigion eu cyflwyno, ond methodd y Biliau ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad; a
- daeth dau o'r cynigion yn Ddeddfau.

04. Trafododd a chytunodd y Pwyllgor Busnes ar nifer o newidiadau arfaethedig yn ymwneud â dethol a datblygu Biliau Aelod, ar ôl adolygu'r broses bresennol ar gyfer Biliau Aelod.

05. Roedd Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad wedi argymell yn flaenorol y dylid adolygu'r broses ar gyfer Biliau Aelod, gan gymeradwyo amrywiaeth o argymhellion gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad. Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai'r Pwyllgor Busnes:

> “adolygu'r broses ar gyfer Biliau Aelodau gan ystyried y dystiolaeth a gawsom gan Aelodau'r Cynulliad a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella'r broses”.[1]

[1] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Deddfu yng Nghymru, Hydref 2015, Argymhelliad 30, tudalen 106.

06. Nodir isod y newidiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn disgrifio trafodaeth y Pwyllgor Busnes o'r awgrymiadau gan Aelodau'r Cynulliad y penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â hwy.

## Newidiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes

### *Cyflwyno cynnig*

07. Roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod camau cychwynnol y broses ar gyfer Biliau Aelod mor hyblyg ag y bo modd ar gyfer yr Aelodau.

08. Fel y cyfryw, mae Rheol Sefydlog 26.90 wedi'i diwygio i gael gwared ar y gofyniad i nodi manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i Fil arfaethedig, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed. Cadwyd y gofyniad ar gyfer amcanion polisi a theitl arfaethedig.

### *Caniatâd i fwrw ymlaen*

09. Roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y dylai fod yn ofynnol o hyd i Aelod a ddewisir yn y balot roi rhywfaint o eglurhad i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r Bil y mae'n bwriadu ei gyflwyno. Fel y cyfryw, penderfynodd y Rheolwyr Busnes y dylai Rheol Sefydlog newydd (26.91A) bennu ei bod yn ofynnol i Aelod a ddewisir yn y balot gyflwyno Memorandwm Esboniadol (ochr yn ochr â'i gynnig yn gofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil), yn nodi:

– teitl arfaethedig y Bil;

– amcanion polisi arfaethedig y Bil;

– manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac

– asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

10. Dylai'r amcanion polisi arfaethedig a nodir yn y Memorandwm Esboniadol hwn fod yn gyson, yn fras, â'r rhai a ddarparwyd yn rhan o'r wybodaeth cyn y balot.

11. Ni ddisgwylir i'r asesiad cychwynnol o gostau a/neu arbedion fod yn fanwl iawn ar y cam cynnar hwn. Yn hytrach, byddai'n rhoi arwydd o ystyriaethau cynnar yr Aelod. Yn ymarferol, byddai'n amhosibl i Aelod nodi costau cywir ar gyfer Bil nad oedd eto wedi'i ddatblygu. Diben darparu asesiad cychwynnol o gostau a/neu arbedion yw rhoi syniad cyffredinol o effaith ariannol debygol y Bil. Nid oes angen unrhyw amcangyfrif manwl o'r costau nac asesiadau manwl o'r effaith, ac ni ddylai'r Aelodau gael eu rhwymo gan y costau cyffredinol a ddarperir ar yr adeg hon wrth ddatblygu eu cynigion ar gyfer y Bil.

12. Yn arbennig, bydd caniatâd gan Aelod, y derbynnir ei gynnig gan y Cynulliad Cenedlaethol, (o dan Reol Sefydlog 26.93 ddiwygiedig) i gyflwyno Bil sy'n rhoi ar waith yr amcanion polisi arfaethedig a nodir yn y Memorandwm Esboniadol, yn hytrach na'r hyn sydd yn y

wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot, fel sydd wedi bod yn wir yn y gorffennol. Ystyriwyd ei bod yn briodol newid enw nifer o Filiau Aelodau yn y Pedwerydd Cynulliad, yn ystod eu datblygiad, o'r hyn a nodwyd yn y wybodaeth cyn y balot. Er enghraifft, cyflwynwyd y Bil Isafswm Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru) fel Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru). Yn yr un modd, cyflwynwyd y Bil Llythrennedd Ariannol fel y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru).

## *Yr amser sydd ar gael i ddatblygu Bil*

13. Roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y dylai Aelod gael tri mis ar ddeg i ddatblygu ei Fil, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno y dylai gael caniatâd i gyflwyno Bil, yn hytrach na naw fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae Rheol Sefydlog 26.93 wedi'i diwygio i adlewyrchu'r newid hwn.

14. Roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y byddai'r cynnydd arfaethedig o bedwar mis yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid rhagdybio o blaid cyhoeddi Biliau drafft ac, yng ngoleuni'r argymhelliad hwnnw, y byddai:

> "angen i'r Pwyllgor Busnes ystyried ymestyn yr amser sydd ar gael i Aelod Cynulliad gyflwyno Bil ar ôl cael caniatâd i wneud hynny, sef naw mis ar hyn o bryd".[2]

15. Nododd y Rheolwyr Busnes hefyd y pwyslais yr oedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi'i roi ar sicrhau cymaint o gyfle ag y bo modd ar gyfer ymgysylltu rhwng dinasyddion, Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn arbennig, roedd o blaid cynhyrchu rhagor o syniadau ar gyfer deddfwriaeth drwy ymgysylltu â chymunedau.

16. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn o bedwar mis yn galluogi Aelodau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i ddinasyddion ymgysylltu â'u cynigion deddfwriaethol, trwy ymgynghori.

17. Rhoddodd y Rheolwyr Busnes hefyd ystyriaeth i'r sylwadau a wnaed gan Mick Antoniw AC, mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ynglŷn â'r diffyg mecanwaith i Aelod gynnal y math o drafodaethau a gafwyd mewn perthynas â'i Fil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ef, o safbwynt drafftio rhai meysydd a allai fod wedi effeithio ar feysydd a weinyddir ar lefel y DU neu sy'n gyfrifoldeb i'r DU.[3] Daeth y Rheolwyr Busnes i'r casgliad mai mater ar gyfer trafodaeth rhwng llywodraethau yw hynny, ond pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi caniatâd i Fil Aelod gael ei gyflwyno, bod disgwyl i Lywodraeth Cymru gymryd camau priodol i gysylltu â

---

[2] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Deddfu yng Nghymru, Hydref 2015, paragraff 79, tudalen 35.

[3] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2014, paragraff 223.

Llywodraeth y DU, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod sy'n gyfrifol ac i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### *Trethiant*

18. Nododd y Rheolwyr Busnes nad yw'r Rheolau Sefydlog, ar hyn o bryd, yn pennu na ellid cynnig Bil Aelod mewn maes sy'n ymwneud â threthi datganoledig.

19. Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd swm cyfatebol yn cael ei dynnu o grant bloc Cymru, pan fo treth ddatganoledig yn disodli un o drethi presennol y DU. Felly gellid ystyried y byddai Bil Aelod a oedd yn ymwneud â threthi datganoledig yn peryglu gallu Llywodraeth Cymru i reoli cyllid cyhoeddus.

20. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'n briodol diwygio gweithdrefn bresennol y Cynulliad er mwyn ei gwneud yn eglur na chaniateir i Aelod ddefnyddio Bil Aelod er mwyn cyflwyno deddfwriaeth ym maes treth. Mae hyn yn dilyn cynsail a sefydlwyd yn San Steffan. Wrth ystyried y mater hwn, rhoddodd y Rheolwyr Busnes ystyriaeth i'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng:

- yr egwyddor seneddol y dylid galluogi Aelodau i ddatblygu a chyflwyno cynigion deddfwriaethol yn eu rhinwedd eu hunain, a'r
- materion ymarferol sydd ynghlwm wrth gynnwys Aelodau unigol mewn prosesau sy'n gofyn am adnoddau ac arbenigedd y llywodraeth, yn ogystal â thrafodaethau rhynglywodraethol, a'r goblygiadau ehangach ar gyfer cyllid yng Nghymru yn sgil gwneud newidiadau i'r system dreth.

### *Newidiadau Canlyniadol*

21. Diwygiwyd Rheol Sefydlog 26.91 i adlewyrchu'r ffaith y bydd gwybodaeth yn ymwneud â Bil arfaethedig bellach yn cael ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91A, yn hytrach na gorfod cyfeirio'n ôl at y wybodaeth a ddarparwyd cyn y balot.

## Materion eraill a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes, heb iddynt arwain at newidiadau penodol i'r Rheolau Sefydlog

### *Y dull o ddethol Biliau a gynigir*

22. Nododd y Rheolwyr Busnes fod awgrym wedi'i wneud yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ym mis Hydref 2015, y dylent adolygu'r dull o ddethol Biliau a gynigir. Nododd y Rheolwyr Busnes yr arfer yn y maes hwn mewn seneddau eraill, gan ystyried yn arbennig y posibilrwydd o symud i system balot enw yn unig.

23. Fodd bynnag, roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y byddai'n briodol cadw'r system bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gyflwyno gwybodaeth cyn y balot. Wrth wneud y penderfyniad hwn, nododd y Rheolwyr Busnes y byddai dinasyddion yn dal i gael cyfle i ymgysylltu ag Aelodau cyn tynnu balot, ac wrth wneud hynny awgrymu syniadau ar gyfer deddfwriaeth. Hefyd, nododd y Rheolwyr Busnes y byddai modd i'r Llywydd roi rhybudd ymlaen llaw ynglŷn â'i bwriad i dynnu balot, gan roi cyfle i ddinasyddion ac Aelodau drafod syniadau dinasyddion ar gyfer deddfwriaeth cyn i Aelodau gyflwyno eu cynigion cyn y balot.

## *Penderfyniadau Ariannol*

24. Roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y byddai'r broses ddeddfwriaethol bresennol yn gymwys i Fil Aelod ar ôl ei gyflwyno.

25. Mae hyn yn cynnwys y ffaith nad yw ond yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnig penderfyniad ariannol ar Fil Aelod. Dim ond os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig penderfyniad ariannol (ac os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei basio) y caniateir bwrw ymlaen â deddfwriaeth a allai arwain at wariant newydd neu ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru.

26. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Ddeddfu, argymhellodd Peter Black AC y dylai fod modd i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno penderfyniad ariannol:

> "because, at the end of the day, if the Government does not support it, it will not support it and it will vote it down, but at least you will have the debate in the Assembly on that".[4]

27. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd lle mai dim ond y weithrediaeth sy'n gallu gofyn am gael defnyddio adnoddau, a dim ond y senedd sy'n gallu awdurdodi defnydd o'r fath, yn ffordd o gadw rheolaeth mewn democratiaethau seneddol ers amser maith. Mae'n sicrhau nad yw gweithrediaeth y Llywodraeth, na'r corff Seneddol, yn colli rheolaeth dros gyllid cyhoeddus.

28. Fel y cyfryw, roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y byddai'n briodol cadw'r gofyniad mai dim ond Llywodraeth Cymru a gaiff gynnig penderfyniad ariannol.

## *Craffu ar ôl deddfu*

29. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Ddeddfu, dywedodd Bethan Jenkins AC:

---

[4] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2014, paragraff 255.

> "if we are going to be putting ideas forward and they are successful, then we need to be seeing progress of implementation from the Welsh Government."[5]

30. Roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y dylai'r pwyllgorau barhau i gael yr hyblygrwydd i gynnal gwaith craffu ar ôl deddfu neu beidio, ac y dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, yn brydlon, i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â sut y rhoddir y ddeddfwriaeth ar waith.

## Cam i'w gymryd

31. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn ffurfiol ar 15 Tachwedd 2016, a gwahoddir y Cynulliad Cenedlaethol i gymeradwyo'r cynigion a nodir yn Atodiad B.

[5] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2014, paragraff 282.

**Atodiad A**

**Newidiadau penodol i'r Rheolau Sefydlog**

**RHEOLAU SEFYDLOG 26.85-94 – Biliau Aelod**

| **Biliau Aelod** | | |
|---|---|---|
| 26.85 | Mae Rheolau Sefydlog 26.86 i 26.94 yn gymwys i Filiau Aelod yn unig. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.86 | *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Cynulliad ar 16 Tachwedd 2011]* | Amh. |
| 26.87 | O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.88 | Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth cyn y balot sy'n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.90. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.89 | Ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o'r blaen yn y | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | |
|---|---|
| Cynulliad hwnnw wneud cais o'r fath. | |
| 26.90 Yr wybodaeth sy'n angenrheidiol cyn y balot yw:<br>(i) teitl arfaethedig y Bil; a<br>(ii) amcanion polisi arfaethedig y Bil.<br>~~Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo gynnwys:~~<br>~~a) amcanion polisi y Bil; a~~<br>~~(b) manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed.~~ | **Diwygio'r Rheol Sefydlog.**<br>Mae'r newid arfaethedig yn lleihau'r trothwy ar gyfer y wybodaeth cyn y balot i roi mwy o hyblygrwydd i Aelodau yn ystod camau cychwynnol y broses, ac ar yr un pryd yn cadw gofynion sylfaenol, sef amcanion polisi a theitl arfaethedig. |
| 26.91 O fewn 25 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot, caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Cynulliad gytuno iddo gyflwyno Bil Aelod ~~er mwyn i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26.90 gael ei rhoi ar waith~~. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog.**<br>Mae'r diwygiad yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gwybodaeth yn ymwneud â'r Bil arfaethedig bellach yn cael ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91A, yn hytrach na gorfod cyfeirio'n ôl at y wybodaeth a ddarparwyd cyn y balot. |
| 26.91A Rhaid darparu Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â'r cynnig, a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hwnnw nodi : | **Rheol Sefydlog newydd**<br>Mae'r gofynion arfaethedig ar gyfer Memorandwm |

| | |
|---|---|
| i) teitl arfaethedig y Bil;<br><br>ii) amcanion polisi arfaethedig y Bil;<br><br>iii) manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; a<br><br>iv) asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil | Esboniadol yn cynnwys y gofynion presennol o dan Reol Sefydlog 26.90, ynghyd â gofyniad newydd ym maes gwybodaeth ariannol.<br><br>Diben darparu asesiad cychwynnol o gostau a/neu arbedion yw rhoi syniad cyffredinol o effaith ariannol debygol y Bil. Nid oes angen unrhyw amcangyfrif manwl o'r costau nac asesiadau manwl o'r effaith, ac ni ddylai'r Aelodau gael eu rhwymo gan y costau cyffredinol a ddarperir ar yr adeg hon wrth ddatblygu eu cynnig ar gyfer y Bil. |
| 26.91B Rhaid i'r amcanion polisi a'r teitl arfaethedig a nodir o dan Reol Sefydlog 26.91A (i) a (ii) fod yn gyson, yn fras, â'r rhai a ddarperir o dan Reol Sefydlog 26.90. Rhaid nodi'r rhesymau dros unrhyw newidiadau yn y Memorandwm Esboniadol o dan Reol Sefydlog 26.91A. | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Dylai'r amcanion polisi a'r teitl arfaethedig fod yn gyson, yn fras, â'r hyn a ddarparwyd o dan 26.90. Dylai'r Aelod egluro'r rhesymau dros unrhyw newidiadau yn y Memorandwm. |

| | | |
|---|---|---|
| 26.92 | Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 o fewn 35 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot (heb gyfrif dyddiau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn eistedd). | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.93 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, caiff yr Aelod sydd wedi cael cytundeb i gyflwyno Bil, o fewn ~~naw mis~~ <u>tri mis ar ddeg</u> i dderbyn y cynnig, gyflwyno Bil er mwyn i'r ~~wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26.90 gael ei rhoi ar waith~~ <u>amcanion polisi arfaethedig a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog 26.91A gael eu rhoi ar waith.</u> | **Diwygio'r Rheol Sefydlog.**<br><br>Mae'r cynnydd arfaethedig o bedwar mis yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid rhagdybio o blaid cyhoeddi biliau drafft ac, yng ngoleuni'r argymhelliad hwn, y byddai angen i'r Pwyllgor Busnes ystyried ymestyn yr amser sydd ar gael i Aelod Cynulliad gyflwyno Bil. Byddai'r Llywydd hefyd yn disgwyl gweld y Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol ategol o leiaf bedair wythnos cyn iddynt gael eu cyflwyno er mwyn ffurfio barn ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol y Bil; mae hyn yn cryfhau'r ddadl o blaid y cynnig i roi mwy o amser.<br><br>Mae'r ail newid arfaethedig yn dileu'r cyfeiriad at wybodaeth cyn y balot o dan Reol Sefydlog 26.90, ac yn rhoi yn ei le gyfeiriad at amcanion polisi fel y'u nodir yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Memorandwm Esboniadol ar y cam caniatâd i gyflwyno. |
| 26.94 | Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, ni chaiff Aelod ymuno ag unrhyw falot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87 am gyfnod o chwe mis ar ôl gwrthod y cynnig os yw amcanion polisi y Bil y mae'n ceisio cytundeb i'w gyflwyno yr un fath i raddau helaeth ag amcanion polisi y Bil y cyfeiriwyd ato yn y cynnig a wrthodwyd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.94A | <u>Ni chaniateir i Filiau Aelod geisio diwygio trethi presennol, na chyflwyno trethi newydd.</u> | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r ychwanegiad arfaethedig yn diwygio gweithdrefn bresennol y Cynulliad er mwyn ei gwneud yn eglur na chaniateir i Aelod ddefnyddio Bil Aelod er mwyn cyflwyno deddfwriaeth ym maes treth. Mae hyn yn dilyn y cynsail a sefydlwyd yn San Steffan. Mae hefyd yn adlewyrchu trafodaeth flaenorol y Pwyllgor Busnes (ar 5 Gorffennaf 2016) ynglŷn â sut i sicrhau cydbwysedd rhwng yr egwyddor seneddol o alluogi Aelodau i ddatblygu a chyflwyno cynigion deddfwriaethol yn eu rhinwedd eu hunain, a'r materion ymarferol sydd ynghlwm wrth gynnwys Aelodau unigol mewn prosesau sy'n gofyn am adnoddau ac arbenigedd y llywodraeth, yn ogystal â |

| | |
|---|---|
| | thrafodaethau rhynglywodraethol, a'r goblygiadau ehangach ar gyfer cyllid yng Nghymru yn sgil gwneud newidiadau i'r system dreth.<br><br>Mewn achosion pan fo treth ddatganoledig yn disodli un o drethi presennol y DU, bydd swm cyfatebol yn cael ei dynnu o grant bloc Cymru.  Felly gellid ystyried y byddai Bil Aelod a oedd yn ymwneud â threthi datganoledig yn peryglu gallu Llywodraeth Cymru i reoli cyllid cyhoeddus. |

## Atodiad B

### Biliau Aelod

26.85 Mae Rheolau Sefydlog 26.86 i 26.94 yn gymwys i Filiau Aelod yn unig.

26.86 *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Cynulliad ar 16 Tachwedd 2011]*

26.87 O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod.

26.88 Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth cyn y balot sy'n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.90.

26.89 Ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o'r blaen yn y Cynulliad hwnnw wneud cais o'r fath.

26.90 Yr wybodaeth sy'n angenrheidiol cyn y balot yw:

(i) teitl arfaethedig y Bil; a

(ii) amcanion polisi arfaethedig y Bil.

26.91 O fewn 25 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot, caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Cynulliad gytuno iddo gyflwyno Bil.

26.91A Rhaid darparu Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â'r cynnig, a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hwnnw nodi:

(i) teitl arfaethedig y Bil;

(ii) amcanion polisi arfaethedig y Bil;

(iii) manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; a

(iv) asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

26.91B Rhaid i'r amcanion polisi a'r teitl arfaethedig a nodir o dan Reol Sefydlog 26.91A (i) a (ii) fod yn gyson, yn fras, â'r rhai a ddarperir o dan Reol Sefydlog 26.90. Rhaid nodi'r rhesymau dros unrhyw newidiadau yn y Memorandwm Esboniadol o dan Reol Sefydlog 26.91A.

26.92 Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 o fewn 35 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot (heb gyfrif dyddiau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn eistedd).

26.93 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, caiff yr Aelod sydd wedi cael cytundeb i gyflwyno Bil, o fewn tri mis ar ddeg i dderbyn y cynnig, gyflwyno Bil er mwyn i'r amcanion polisi arfaethedig a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog 26.91A gael eu rhoi ar waith.

26.94 Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, ni chaiff Aelod ymuno ag unrhyw falot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87 am gyfnod o chwe mis ar ôl gwrthod y cynnig os yw amcanion polisi y Bil y mae'n ceisio cytundeb i'w gyflwyno yr un fath i raddau helaeth ag amcanion polisi y Bil y cyfeiriwyd ato yn y cynnig a wrthodwyd.

26.94A Ni chaniateir i Filiau Aelod geisio diwygio trethi presennol, na chyflwyno trethi newydd.